**Statws** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 1330

## Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) (Diwygio) 2015

**Dehongli**

**3.** Yn erthygl 2(1)—

(a) ar ôl y diffiniad o "cais AEA" mewnosoder—

"ystyr "cais deiliad tŷ" ("*householder application*") yw cais am—

(a) caniatâd cynllunio ar gyfer estyn, gwella neu addasu tŷ annedd mewn ffordd arall, neu ddatblygiad o fewn cwrtil tŷ annedd o'r fath, neu

(b) newid defnydd er mwyn ehangu cwrtil tŷ annedd,

at unrhyw ddiben sy'n ategol i fwynhau'r tŷ annedd ond nad yw'n cynnwys—

(i) unrhyw gais arall am newid defnydd,

(ii) cais i godi tŷ annedd, neu

(iii) cais i newid nifer yr anheddau mewn adeilad;";

(b) ar ôl y diffiniad o "cais deiliad tŷ" mewnosoder—

"ystyr "cais masnachol bach" ("*minor commercial application*") yw cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer ehangu, gwella neu addasu adeilad presennol o ddim mwy na 250 metr sgwâr gros o arwynebedd llawr allanol ar lefel y llawr daear mewn ffordd arall, neu ran o'r adeilad hwnnw, sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd at unrhyw un o'r dibenion a nodir yn Atodlen 1A i'r Gorchymyn hwn sydd yn gais am—

(a) newid y defnydd o unrhyw un o'r dibenion a nodir ym mharagraff 1 yn Atodlen 1A i'r Gorchymyn hwn i unrhyw un o'r dibenion a nodir un ai ym mharagraff 2 neu ym mharagraff 3 o'r Atodlen honno;

(b) newid y defnydd o unrhyw un o'r dibenion a nodir ym mharagraff 2 yn Atodlen 1A i'r Gorchymyn hwn i unrhyw un o'r dibenion a nodir ym mharagraff 3 o'r Atodlen honno; neu

(c) cyflawni gwaith adeiladu neu weithrediadau eraill i flaen siop;".